


Adroddiad ar gyfer	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	17 Rhagfyr 2018	
Swyddog Arweiniol	Y Prif Swyddog Tân	
Swyddog Cyswllt	Y Prif Swyddog Tân (01745) 535253	
Pwnc	Papur Gwyn "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru"	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi gwybod i'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Phapur Gwyn, "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru".

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth diweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau o ran cynigion Ysgrifennydd y Cabinet i newid trefniadau cyllid a llywodraethu yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae'n awgrymu'r ffordd fwyaf priodol y gallai'r Awdurdod ymateb i'r Papur Gwyn.

ARGYMHELLIAD

- 3 Bod yr Aelodau:
 - (i) yn nodi cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru";
 - (ii) yn nodi y bydd y gweithdy i'r holl aelodau yn cael ei gynnal ar 15 Ionawr 2019;
 - (iii) yn cytuno bod ymateb ysgrifenedig yn cael ei lunio i Lywodraeth Cymru yn dilyn y gweithdy erbyn y dyddiad cau sef 5 Chwefror 2019. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei gadarnhau'n ffurfiol gan Gadeirydd yr Awdurdod.

SYWLADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf.

CEFNDIR/GWYBODAETH

- 5 Bydd yr Aelodau'n cofio nifer o adroddiadau blaenorol i'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol yn rhoi gwybod i'r Aelodau am fwriad Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i drefniadau ariannol a llywodraethol yr awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

- 6 Ar 13 Tachwedd 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Papur Gwyn o'r enw "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru". Mae copi o'r Papur Gwyn ar gael yn Atodiad A. Fel y bydd yr Aelodau'n ymwybodol, dogfen bolisi yw Papur Gwyn ac mae'n cael ei chreu gan y Llywodraeth ac yn nodi ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Mae'n darparu'r sail ar gyfer ymgynghoriad pellach a thrafodaeth â phartion sydd â diddordeb ac mae'n golygu bod modd gwneud newidiadau cyn i'r newid deddfwriaethol ddod i rym yn derfynol.
- 7 Fel yr adroddwyd i'r Awdurdod ar 18 Mehefin ac 17 Medi 2018, roedd y cyfnod yn arwain at gyhoeddi'r Papur Gwyn yn cynnwys gohebiaeth rhwng Cadeiryddion y tri ATA yng Nghymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus; trafodaethau anffurfiol rhwng y rheini; trafodaethau anffurfiol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r tri Phrif Swyddog Tân ac, yn arwyddocaol, adroddiad gan yr Athro Catherine Farrell a'r Athro Rachel Ashworth (o Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn eu trefn). Mae copi o adroddiad yr Athro Farrell a'r Athro Ashworth ar gael yn Atodiad B er gwybodaeth i'r Aelodau.

Y PAPUR GWYN

- 8 Yn y bôn, mae'r Papur Gwyn wedi'i rannu'n bedair adran, sef:
- yr achos dros newid
 - y cynigion ar gyfer newid trefniadaeth llywodraethu ac aelodaeth yr ATAAu
 - y cynigion ar gyfer newid y model cyllido
 - y cynigion ar gyfer newid trefniadau rheoli perfformiad yr ATAAu yng Nghymru.
- 9 Wrth asesu achos Llywodraeth Cymru dros newid, bydd angen i'r Aelodau gael barn a yw'r achos yn cael ei gyflwyno ai peidio. Yn rhesymegol, oni bai fod Aelodau'r Awdurdod wedi cael eu hargyhoeddi, bydd yn anodd cefnogi unrhyw gynigion sy'n seiliedig ar yr achos dros newid. Dylai'r Aelodau ystyried y pwynt hwn mewn perthynas â datganiad Ysgrifennydd y Cabinet yn y rhagair, sef "nid yw dal ati yn yr un rhigol yn ddewis".
- 10 Oherwydd yr uchod, petai'r Aelodau yn cytuno bod yr achos dros newid yn ddigon argyhoeddiadol byddai'n briodol mesur cynigion Llywodraeth Cymru drwy eu cymharu â'r uchelgeisiau mae wedi'u datgan. O'r dadansoddiad hwnnw, dylai'r Aelodau fod mewn sefyllfa i ffurfio barn ynglŷn â chefnogi cynigion Llywodraeth Cymru a/neu wneud unrhyw gynigion eraill ar gyfer newid drwy ymateb ffurfiol yr Awdurdod.

YMATEB

- 11 Bydd yr Aelodau'n nodi mai 5 Chwefror 2019 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion. Mae'n hollbwysig fod yr Awdurdod yn llunio ymateb ystyriol i'r cynigion a bod ei farn yn cael ei fynegi'n glir i Lywodraeth Cymru.
- 12 Yng ngweithdy'r aelodau ar y gyllideb a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2018, dywedodd yr Aelodau eu bod o blaid cael gweithdy pellach i drafod y Papur Gwyn yn fanylach ac am fwy o amser nag a fyddai'n bosibl o fewn cyfyngiadau un o gyfarfodydd arferol yr Awdurdod. Felly, neilltuwyd 15 Ionawr 2019 ar gyfer hyn. Bydd yr Aelodau'n cael gwybod maes o law lle bydd y gweithdy'n cael ei gynnal.
- 13 Yn y gweithdy ym mis Ionawr, bydd yr Aelodau'n gallu rhoi sylwadau a chyfrannu i ymateb drafft yr Awdurdod, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan y swyddogion. Ar ôl i'r ymateb gael ei gwblhau, argymhellir bod Cadeirydd yr Awdurdod yn rhoi ei gymeradwyaeth derfynol cyn ei gyflwyno.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ni chanfuwyd dim.
Cyllideb	Mae'n bosibl y gallai newid trefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod effeithio ar sefyllfa cyllideb yr Awdurdod yn y dyfodol. Nid oes cyllideb ar hyn o bryd ar gyfer gofyn am gyngor cyfreithiol.
Cyfreithiol	Mae materion cyfreithiol posibl yn gysylltiedig â diwygio, neu ddiddymu, Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995. Efallai y gofynnir am gyngor cyfreithiol yn nes ymlaen.
Staffio	Ni chanfuwyd dim.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ni chanfuwyd dim.
Risgiau	Mae'n bosibl y bydd unrhyw newid i drefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod yn effeithio ar y modd y mae'n darparu gwasanaethau i'r gymuned yng Ngogledd Cymru, yn enwedig os bydd effaith negyddol ar sefyllfa'r gyllideb.